Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Rhif 79 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn•Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn Gaeaf 2003

## Ogof Aladin gan R. M. (Bobi) Owen

Y tro cyntaf i mi weld Bob Owen, er fy mod wedi clywed llawer amdano, oedd yn ffermdy helaeth Llewenni yn Ninbych, rhywbryd yn y pum degau, yn amser Ifor Roberts. Does dim atgof o gwbl gennyf am destun ei ddarlith ond mae'r darlun o'r creadur corachlyd, bywiog, aflonydd yn ei siwt o frethyn cartref a'i lais unigryw, na chlywais i mo'i debyg na chynt na chwedyn, yn diasbedain rhwng trawstiau'r hen gegin, yn fyw iawn yn fy nghof.



*Ogof Bob Owen, Croesor.*

Chefais i mo'r cyfle i dorri gair hefo Bob Owen – mawrion y dre fel Dr Kate, Gwilym R., Mathonwy a Frank Price Jones oedd yn hawlio'i sylw y noson honno – ond mi benderfynais yn y fan a'r lle y buaswn yn sicrhau rhyw ychydig o amser yn ei gwmni yn y dyfodol agos.

A Bob yn tynnu at oed yr addewid (bu farw yn 1962) doedd dim amdani ond mentro i ymweld â'r brenin yn ei gastell. Gan nad oeddwn yn ei adnabod, go brin y byddai'n ateb yn gadarnhaol pe bawn i'n awgrymu talu ymweliad ag o, felly, wedi i mi ymgynghori â llyfr yr AA, i ffwrdd â fi yn yr hen fen Austin A35 tua Chroesor. Cyn ymadael â Dinbych, 'sgrifennais bwt o gwestiwn hanesyddol digon amwys ar ddarn o bapur fel math o esgus am fynd yno.

A dweud y lleiaf, lle digon anghysbell i gael hyd iddo ydi pentre Croesor, ond wedi i mi gyrraedd, gan fod Bob Owen mor adnabyddus yno, buan iawn cefais hyd i Ael y Bryn.

Braidd yn bryderus, mi gurais y drws, a dyna, megis ysbryd, ddynes fechan, golwg braidd yn eiddil arni, yn sefyll o 'mlaen.

Cyn i'r un ohonom gael cyfle i yngan sill, dyma floedd gyfarwydd yn codi o ganol y tŷ.

'Pwy sy' 'na, Nel? Does gen i ddim amser i neb heddiw. Gormod o waith gen i.'

'Wel,' mentrais innau, 'mae gen i gwestiwn i Mr Bob Owen.'

'Mae ganddo gwestiwn i ti, Bob,' meddai Nel gan droi i gyfeiriad y llais.

'Dwi rhy brysur o lawar, pentwr o waith gen i,' atebodd Bob yn ôl.

Trodd Nel ataf gan ysgwyd ei phen yn drist. Cyn iddi ddweud gair, dyma Bob yn gweiddi eto,

'Un o ble ydi o, Nel?'

Cwbl ddianghenraid oedd i Nel ail ofyn y cwestiwn.

'O Ddinbych,' atebais innau gan geisio swnio'n hyderus.

'Dew, o Ddinbych,' meddai Bob. 'Wmffre Llwyd y Mapiwr, fifteen twenty seven hyd fifteen sixty eight'; Henry Salusbury y Gramadegydd, fifteen sixty one hyd sixteen thirty seven; John Parry, Bardd Alaw, seventeen seventy six hyd eighteen fifty one. Dew, bobol fawr, bobol bwysig. Na, 'does gen i ddim amser i drafod dim heddiw, gwaith sgwennu mawr gen i.'

Erbyn hyn roedd wyneb Nel yn gwbl ymddiheurol ond wrth iddi ddechrau cau'r drws, a minnau'n dal ar y step fel un o dystion Jehofa, dyna floedd arall yn cyrraedd.

'Gofynna'i enw fo, Nel.'

Wedi'm cythruddo braidd gan y sefyllfa, mi waeddais yn ôl,

'Bob Owen, yr un enw â chi!'

Daeth yr ymateb fel ergyd o wn,

'Wel, tyrd â fo i mewn, Nel, paid â'i adael yn sefyll yn fana.'

Prin fod angen i Nel fy nhywys i'r stydi, dilynais y sypiau papur a'r pentyrrau llyfrau ar y llawr oedd yn fy arwain yno.

Dyna olygfa, y dyn bach yn llewys ei grys di-goler, yn sefyll y tu ôl i fwrdd mawr hirsgwar, a hwnnw'n griddfan dan bwysau rhagor o bapurach a llyfrau, ei ychydig wallt fel twffiau o wair a'i lygaid llachar fel pe baent yn herio fy mhresenoldeb yn y cysegrle. O gornel ei geg, yn hanner cuddiedig dan ei fwstas melyn, crogai stwmp o Wdbein a'r mwg glas yn cronni'n gwmwl yn erbyn y nenfwd.

Gorchmynnodd i mi eistedd, ac am y dwyawr nesaf cefais gyfle, unwaith mewn oes, i ddysgu llawer am Ddinbych, ei hynafiaid a'i henwogion. Aeth ymlaen heb gymorth na llyfr na nodyn, a minnau'n glustiau i gyd, i

*(Parhad ar y dudalen ôl)*